DINESYDD
Dydd Llun
7 Awst 1978
10c

# EGLWYSI'N CADW DRAW

Cafwyd cynulleidfa dda ym Mhafiliwn Pentwyn i'r Gwasanaeth Cyd-enwadol fore ddoe, ond doedd dim llawer o ddiolch i rai o Eglwysi Caerdydd am hynny. Yn wir, mae'n ddiddorol sylwi ar beth mae gwahanol Eglwysi yn ei gweld hi'n werth gwneud safiad drosto.

Penderfynodd Cyngor Eglwysi Cymraeg y Ddinas gynnal Oedfa Gydenwadol fel arfer yn y Pafiliwn i agor gweithgareddau'r eisteddfod ac yn naturiol apeliwyd ar i'r Eglwysi anfon eu cynulleidfaoedd i lanw bol bwystfil Pentwyn.

Ond fe benderfynodd yr Annibynnwyr (ac eithrio Heol Hafren), y Bedyddwyr a'r Esgobwyr i gynnal eu hoedfaon fore Sul ar yr amserau arferol, gan adael i'r Hen Gorff (hen elyn yr Eisteddfod) i gynnal Oedfa'r Pafiliwn gyda chynulleidfaoedd Heol-y-Crwys a Salem, gyda chymorth gwrthgilwyr yn unig o enwadau eraill. Felly, fe gollwyd cyfle eewmenaidd gwych i Gristnogion Cymraeg Caerdydd gyd-dystiolaethu o flaen camerau'r teledu cyn y Brifwyl.

Ymateb y parch Raymond Williams, gweinidog Eglwys y Tabernacl, pan siaradodd Y DINESYDD ag ef oedd nad yw'r Eglwysi'n bodoli er mwyn y Steddfod a sut bynnag, mai peth gwael fyddai peidio â chael oedfa Gymraeg o gwbl yng Nghaerdydd y bore hwnnw.

Her arall i oedfaon y Sul oedd y Cyngerdd Operatig, yn dechrau am 8 o'r gloch, ac mae'n hynod i weld yr un eglwysi a wrthododd newid trefniadau er mwyn addoli ar y cyd yn symud eu hoedfaon fel ŵyn bach i 5 o'r gloch neu 5.30 er mwyn i'w haelodau fynd i gyngerdd seciwlar.

Dim ond dwy eglwys na symudodd eu hoedfaon 6 o'r gloch - ie, yr Hen Gorff eto!

O.N. Diddorol nodi fod Cofiadur yr Orsedd, Gwyndaf, yn pregethu yng Ngwaelod y Garth fore Sul!




## Menter y parcio




**Mae'n rhaid eich bod chi wedi sylwi nad oedd raid i chi ddefnyddio eich Saesneg prin wrth roddi eich car i orffwys yn dawel ar faes parcio'r Steddfod eleni. Braf oedd cael gweld arwyddion cartrefol Urdd** Gobaith Cymru ar y meysydd parcio yn hytrach na'r NCP estron a welwyd yn y gorffennol. Mae'r diolch am y gwasanaeth hwn i Ganolfan yr Urdd, Caerdydd sydd wedi bod â'i baner yn weddol amlwg ar feysydd Eisteddfodau Cenedlaethol yn ystod y blynyddoedd diwetha 'ma. Gofynnais i Gadeirydd y Ganolfan Mr John Albert Evans, sut y meddylion nhw am ymgymeryd â'r dasg anferth hon.

"Mae 'na dri rheswm. Yn gyntaf, angen. Rhaid codi rhai miloedd o bunnau'n flynyddol i gael dau pen llinyn ynghyd, a theimlad y pwyllgor oedd y gellid gwneud elw sylweddol ar y fenter hon. Yn ail — y teimlad ei bod hi'n hen bryd cael gwasanaeth Cymraeg ar y meysydd parcio. Os ydyw rheol Gymraeg yr Eisteddfod i olygu rhywbeth, oni ddylid ymdrechu i sicrhau'r rheol yn holl weithgaredd a gwasanaethau'r Eisteddfod? Yn drydydd — yr antur sy ynghlwm â'r math yma o beth — yr ymlwybro i'r tywyllwch, fel petae!

Rhaid cofio mai pobl ifanc ydyn ni ... mae'n ddrwg gen i, ydyn nhw sy'n defnyddio'r Ganolfan, ac mae ymgymryd â menter fel hon yn sicr o fod o help mawr i greu gwell ysbryd eto yn y Ganolfan drwy gydweithio gyda'n gilydd."

Y cwestiwn mawr mae'r rhaid ei ofyn, wrth gwrs, yw pam nad yw'r Eisteddfod ei hun wedi bod yn gweithredu'r meysydd parcio ers blynyddoedd. Ydy hi wedi bod yn gallu fforddio rhoi rhai miloedd o bunnau y flwyddyn i'r N.C.P.? Diddorol iawn eleni oedd fod Ysgol Rhydfelen hefyd wedi gwneud cais am y meysydd parcio.

Pob lwc i'r Ganolfan am wythnos lewyrchus ym mhob ffordd, ac yn arbennig i'r tri gŵr cyhyrog fydd yng ngofal y gwaith ar y caeau drwy'r wythnos, Rhys Tudur, Pete McMullen a Wyn Williams.

GOHEBYDD ARBENNIG

# GOLYGYDDOL

**Wrth groesawu pawb i Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 1978, mae nifer o bethau y dylid llongyfarch yr Eisteddfod a'r pwyllgorau lleol arnyn nhw. Y maes ei hun i ddechrau — yn 80 erw o faint, dyma'r mwyaf erioed — maes coediog, braf, diddorol ei ffurf ac arno, am unwaith ffordd gerrig o gwmpas y pafiliwn i'n hachub rhag y mwd a'r llaid. Heblaw am y Pafiliwn newydd ei hun, mae 'na Bafiliwn Celf a Chrefft newydd a Phabell Lên newydd ym Mhentwyn. Gwych o beth yw menter y meysydd parcio hefyd: Canolfan yr Urdd yng Nghaerdydd yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb am yr wythnos, gan sicrhau fod holl weithwyr y meysydd parcio'n Gymry Cymraeg, a bod yr holl elw'n mynd i achos Cymraeg yn lle cwmni masnachol yn Lloegr. Ac, os maddeuer i ni am son y peth, dyma'r Steddfod gyntaf erioed i fod â'i phapur dyddiol Cymraeg ei hun yn ymddangos bob dydd.**

**Dyna'r newyddion da. Nawr am y newyddion drwg. Mae Seisnigrwydd yr hysbysebion yn Rhaglen y Dydd yn hysbys i bawb bellach, ond does dim drwg mewn tanlinellu'r peth unwaith eto: allan o 107 tudalen o hysbysebion, mae bron 30 tudalen o rai uniaith Saesneg (a 'dyw hynny ddim yn cyfrif y rhai sydd yn Saesneg yn bennaf, gyda gair bach o Gymraeg yma ac acw i'n cadw'n hapus). Mae Ysgrifennydd y Pwyllgor Gwaith yn ceisio cyfiawnhau hynny ar dud. 3, ond dyna gylfle a gollwyd. Rydym yn siarad digon am bwysigrwydd rhoi gwerth masnachol i'r iaith Gymraeg: oni allai'r Eisteddfod fod wedi egluro wrth y cwmniau hyn nad oes bwrpas yn y byd hysbysebu yn Saesneg mewn cyhoeddiad sy'n cael ei brynu gan bron neb ond Cymry Cymraeg? Wedi'r cwbl, pam ddylen ni eu cefnogi hwy pan nad oes ganddynt hwy mo'r cwrteisi i hysbysebu yn ein hiaith ni?**

**Yr ail bwynt yw Seisnigrwydd y Maes. Mae hen bla'r arwyddion dwieithog yn britho'r Maes eleni. Cymraeg yw iaith y Steddfod; Cymraeg felly ddylai pob arwydd a bwrdd hysbysebu fod, ac os oes rhaid egluro pethau yn Saesneg, dylai'r Saesneg fod mewn man amlwg eilradd. Ond y gwrthwyneb sy'n wir am rai o'r pebyll ar maes hwn, a rhai o gyrff y llywodraeth yw'r troseddwyr pennaf. Beth amdani, John Morris? Tybed a hoffech chi, fel cynrychiolydd llywodraeth sydd bellach yn cefnogi'r Gymraeg, sibrwd gair bach yn eu clust?**

**Beth yw'ch barn chi ar bynciau'r dydd yn y Steddfod? Dwedwch wrth y DINESYDD DYDDIOL - bydd colofn llythyron yn y papur o fory ymlaen. Galwch i mewn i Babell y DINESYDD DYDDIOL a'ch llythyron, cyn 4.00 bob prynhawn.**


**SAIN — RECORDIAU'R DYDD**

TECWYN IFAN — "DÔF YN ÔL — Sain (1119M)
EDWARD H. DAFIS — "UFFERN AR Y DDAEAR" — Sain (67S)
GWYNNE JAMES — Sain (1122D)

**AR WERTH YM MHABELL SAIN**
**DEWCH HEIBIO!**

sain


# Colofn hysbysebion personol

**Gellir cysylltu â ffrindiau, cyfarch perthnasau, prynu a gwerthu trwy'r golofn hon. Sicrheir trefniadau'r wythnos am 10 ceiniog y llinell! Galwch ym mhabell *Y Dinesydd*!**

* * *

JONES, Alwyn F. — Oes gen ti ffilm yn dy gamera? Cen.

* * *

BYN — Dere i'r babell cyn gynted ag y medri ar ôl stop tap. Gol.

* * *

YN Eisiau — dwy wellington droed dde, maint 8, i fynd gyda'r ddwy droed chwith oedd ar ôl gennyf ar ôl Eisteddfod Wrecsam. Prynnaf y ddau, neu gyfnewid un i wneud par. bocs 130, Pabell y *Dinesydd*.

* * *

Meri — Welai di yn y Babell, Len.

* * *

DAI SHEP — Dymuniadau gorau am adferiad buan — Robaitsh.

* * *

D.S: Ni dderbynir hysbysebion masanachol.

# Cwrw Cymreig

Mae tipyn o gwyno wedi bod am Raglen y Dydd rhwng un peth a'r llall — y ffaith nad oedd hi ar werth yn y gogledd yn cythruddo'r Gogleddwyr, yr hysbysebion cwrw yn cythruddo'r dirwestwyr, a Seisnigrwydd yr adran hysbysebu (bron draean o'r hysbysebion yn uniaith Saesneg) yn cythruddo pawb.

Ond chwarae teg i'r cwmniau cwrw, mae cwmniau Buckley, Brains a Welsh Brewers i gyd wedi hysbysebu'n Gymraeg, a hyd yn oed Great Western Bitter yn llwyddo i gynnwys brawddeg o Gymraeg yn eu hysbyseb. Yr hen lager estron 'na yw'r broblem — Heineken a Skol yn hysbysebu'n uniaith Saesneg. Mae'r foeswers yn glir felly: cadw at y cwrw Cymreig, a gadael llonydd i'r hen stwff ffisi arall 'na!

Tristwch o'r mwyaf yw gweld gwin y Gwyddel, Guinness yn hysbysebu'n Saesneg yn y rhaglen. Os nad oeddwn nhw'n fodlon hysbysebu yn iaith 90% o'r bobl fydd yn prynu Rhaglen y Dydd, siawns na ellid fod wedi cael rhyw hysbyseb fach Wyddeleg ganddyn nhw, o leiaf!

# COLOFN Shân Emlyn

**Wrth feddwl am y miloedd yn tyrru i'r Eisteddfod yn y Brifddinas yr wythnos yma mae nifer o bethau yn gwibio drwy fy meddwl. Mae'n syn i mi fel y mae 'na ar draws ac ar hyd Cymru rhyw deimlad o droi-trwyn at y brifddinas ei hun ac at y brifddinas ei hun ac at y Cymry Cymraeg sy'n byw yma.**

Pan bydd rhywun yn gofyn i mi "O ble yda chi'n dwad?", yn reddfol Pwllheli fydd yr ateb - am mae'n debyg mai yno y mae fy nghwreiddiau o hyd, er imi fod yn byw yn y brifddinas am dros bymtheng mlynedd. Byddaf yn meddwl mai Pen Llyn pia fy nheyngarwch ac nid y ddinas boblog yma sy'n llawn o bobol o bob lliw a llun. Ond eto, diolch, y byddaf yn cynhyrfu pan glywaf bobol a'u lach arnom ni yng Nghaerdydd — boed ni'n ddosbarth canol ai peidio. Wnai ddim dechrau cynhyrfu nac ymhelaethu ar yr honiad yna!

Wrth gwrs pobol ddwad ydy'r rhan fwya ohonom ni ac acenion pob bro i'w clywed ar ein gwefusau. Nid hawdd yw gwreiddio mewn dinas, nac ychwaith greu cymdeithas glos Gymreig. Rydym i gyd wedi ein gwasgaru yma, ond nod pob teulu Cymraeg yw magu plant yn Gymry Cymraeg, a gobeithio, ennyn yr un balchder ynddynt hwy tuag at Gaerdydd ac sydd gennym ninnau yn ein broydd genedigol.

Nid peth hawdd yw magu cariad tuag at gerrig a phridd Caerdydd ond ynghyd ag Ysgolion Cymraeg, capeli ac awyrgylch y maes rygbi mae gan blant Caerdydd falchder yn y brifddinas — eu bro a'u cartre hwy.

Hwyrach y byddwch yn clywed acenion y plant yn ddieithr ac nad tafodiaeth bur sydd gan y rhelyw ohonynt. Wrth gerdded y maes a chlywed yr acenion hyn — cofiwch bod llawer iawn iawn o Gymry bach Caerdydd yn dod o gartrefi hollol ddi-Gymraeg. Mae 'na adferiad yma.

Fy ngobaith i yw y gall ymweliad â'r Ŵyl ein dwyn ni Gymry Cymraeg at ein gilydd, ac inni gael balchder yn ein prifddinas yn ogystal â'n broydd genedigol. Mae'n chwith garw gen i na fyddai Adfer â'r agwedd yma. Yr un tân sydd yn ein boliau ni i gyd. Dyn a ŵyr, mae gen i feddwl y byd o Lŷn ac Eifionydd — er gwyched pob ardal Gymraeg — coeliwch fi, mae Caerdydd yn gymaint rhan o'r Fro Gymraeg ac unrhyw fan arall. Mwynhewch!

# Hawl i Bawb Hysbysebu?

**Mae pob eisteddfod yn cynhyrchu record o ryw fath, ac mae'n ymddangos fod Eisteddfod Caerdydd wedi creu rhyw record ddiweddar trwy gael *Rhaglen y dydd* allan bythefnos cyn yr Eisteddfod.**

Ond, wrth astudio'r cyfanwaith, ydych chi erioed wedi meddwl paham ei bod yn arferth o job cael y Rhaglen Swyddogol i'ch dwylo cyn yr Eisteddfod?

Fe welwch fod iddi nifer o rannau. I ddechrau, mae gyda chi hysbysebion. Heb eu hysbysebion, byddai'r rhaglen yn costio o leiaf ddwy bunt o hanner can ceiniog. Gŵyr y gwŷr busnes yn well na neb nad yw hysbyseb yn debyg o dalu llawer iddyn nhw. Mae'n costio'n ddrud ac yn ymddangos am wythnos yn unig (fel rheol) mewn cylchgrawn sy'n colli ei werth yn gyfangwbl ar ôl Sadwrn yr Eisteddfod. Brwydr galed yw hi i gael hysbysebion, felly.

Mae rhai'n awyddus i anfon copi Cymraeg inni, eraill am rai dwyieithog, ac eraill (a nhw biau'r hawl) am hysbysebu'n Saesneg. Gyda'r rhain, mae'r eisteddfod mewn cyfyng gyngor. Gwrthod hysbyseb Saesneg ac wynebu cynnddaredd Eisteddfodwr am fod ei raglen mor ddrud, neu ei derbyn a gobeithio cenhadu'n dawel bach. Fe âi'r llith yma'n hirfaith pe dywedwn faint o genhadu a fu eleni i droi hysbysebion Saesneg yn rhai Cymraeg. A phan ddaw galw am gyfieithu, y criw bach yn y swyddfa, fel rheol, sy'n gorfod gwneud — achos fe synnech faint o bobl fisi sydd mewn prifddinas!

Yr ail ran yw'r Rhaglen eisteddfod go iawn, yn rhaglen pafiliwn, pabell lên, theatr fach, stiwdio gerdd, pabell celf a chrefft, pabel dysgwyr ac ati.

Mae gyda ni ran wedyn ar gyfer y cyfeillion di-Gymraeg. Rhan anodd. Mae rhai'n codi gwrychyn os gwelan nhw air o Saesneg yn y rhaglen, ac mae eraill yn teimlo y dylai'r rhai na allan yr iaith, ond sy'n dod i'r Eisteddfod, gael ychydig o help llaw. Rhaid penderfynu beth i'w gynnwys a beth i'w adael allan, rhag i'r rhaglen fynd yn rhy fawr.

Rhan olaf, bwysig, yw'r rhan wybodaeth. Mapiau, hanes yr unedau, sut i fynd a dod, ble mae cael tocynnau, pwy sy wedi cyfrannu a faint. Rhaid cadw rhestr y cyfranwyr ar agor nes canol Gorffennaf.

Dal i newid tan y funud olaf, byw yn y wasg yn cael popeth yn agos iawn. Ceisio dileu cynifer o gamgymeriadau ag sy'n bosibl. Mynd ar goll ynghanol proflenni a bloeiau, a bron â chyfogi yn arogl inc print. Ond un dydd y wasg yn dweud, "We might get you two hundred copies by eleven on Monday!"

Mynd i lawr, a chael dau gant a hanner. Gorfoleddu. Mynd â chant a hanner i Lanelwedd i'w gwerthu i eisteddfodwyr y fferm, anfon dwsinau i'r beirniaid a'r rhai sy'n cael y rhaglen yn rhinwedd eu swydd, anfon copiau i hwn a'r llall a all ein helpu drwy hysbysebu — a ninnau'n gwybod fod yr Eisteddfodwyr yn galw am eu copiau.

Yna'r ffôn yn canu. Un o brif swyddogion *Y Dinesydd*.

"Oedd rhaid cael cymaint o Saesneg?"

Ofni dweud gormod, rhag ofn y byddai'r Dinesydd yn gadael ei stondin-am-ddim ar y maes am mai stondin Woodalls, Cwmni Saesneg yw.

Rhaglen deledu'n pefrio i'r byd. Y sylwebydd yn anwybyddu'r pedwar cant a deugain tudalen ac yn cyfri ambell dudalen sy'n hysbysebu cwrw. Yn cyhoeddi hynny, a dyna'i hawl.

Gwraig o'r gogledd ar y ffôn. "Gwarth. Pam nad yw'r Rhaglen y Dydd ar werth yn ein siop fach ni — mae wedi bod ar werth ers blynyddoedd!" Dweud dim.

Un arall yn cwyno, "Mae'n uffernol o ddrud."

Cynnig y copi cyntaf yn Llanelwedd i Gymro amlwg, ac Eisteddfodwr pybyr. "Dim diolch, fe ges i gopi dydd Gwener!"

Wel, oes y gwyrthiau ydy hi. A dyna ni. Beth wnewch chi?

Gobeithio y cewch flas arni, er gwaetha'i gwendidau.

Ond pwy ŵyr? Hwyrach y bydd Caernarfon dair wythnos ar y blaen. Sut bynnag, fe wn i hyn. Fe fydd rhywun yn siŵr o gwyno!

**W.J. Jones**

# ??????

## Cwestiwn y Dydd am Gaerdydd

**Ble yng Nghaerdydd ceir plac yn coffau Owain Glyndŵr? (Edrychwch am yr ateb yfory yn yr erthygl gyntaf yn ein cyfres Crwydro Caerdydd).**

# Pwy yw'r CEFNOGWR?



**Bob dydd bydd ffotograffydd y DINESYDD yn tynnu llun person enwog ar y maes yn gwisgo het fowler y DINESYDD DYDDIOL. Y gamp yw eu hadnabod o'r cefn. Dewch a'ch atebion i babell DINESYDD DYDDIOL. Bydd gwobr o het fowler i'r ateb cywir cyntaf. (Bydd wyneb y cefnogwr hwn yn y DINESYDD DYDDIOL fory).**


Y Ddraig Goch

**"Y DDRAIG GOCH"**

Yr unig bapur misol Cymraeg sy'n cyflwyno yr agwedd genedlaethol ar faterion cyfoes Cymru. Mae'n hanfodol i'r dinesydd o Gymro sydd am ddeall yr hyn sy'n mynd ymlaen yn y Gymru fodern.

**"WELSH NATION"**

Chwaer-bapur "Y Ddraig" (yn Saesneg). Eto yn gosod allan barn annibynnol Cymreig ar faterion cyfoes.

Mae'r ddau bapur hyn yn angenrheidiol i'r Cymro sydd am ddatblygu ei farn ei hun ar bethau, heb ddibynnu ar gyfryngau Llundain am hynny.

Gellir archebu'r naill neu'r llall (neu'r ddau!) trwy anfon at: Swyddfa Y Ddraig Goch, 51 Heol yr Eglwys Gadeiriol, CAERDYDD.

Tanysgrifiad blwyddyn am y "Ddraig": £3.00 (mewnol), neu £4.00 (tramor). Tanysgrifiad am y "Nation" yn debyg.

**Edrychwn ymlaen at glywed gennych!**

WELSH NATION

# O'r Dinesydd... i'r Dinesydd DYDDIOL!

Roedden ni i gyd wedi bod yn siarad am y peth ers tro o gwmpas Caerdydd, dros beint ar ôl cyfarfod neu dros goffi yn nhai ein gilydd. A siarad a siarad. Roedd rhai ohonom a oedd yn aelodau o Gymdeithas yr Iaith wedi bod yn son am y syniad hefyd, sef pwysigrwydd sefydlu papurau bro Cymraeg ledled Cymru. Son a siarad, trin a thrafod.

Ond yna, daeth Mered (neu'r Dr Meredydd Evans i unryw un yng Nghymru nad yw'n adnabod y gwron), a doedd dweud ddim yn ddigon iddo ef — rhaid oedd gwneud. Ac o gyfarfod yn fflat Mered a Phyllis yn Shirley Road' nôl ym 1972, ganed — *Y Dinesydd* (gyda'r rhifyn cyntaf yn ymddangos ym mis Ebrill 1973, a Norman Williams yn olygydd ar y papur.) Erbyn heddiw, mae hyn yn hen, hen hanes — hyd yn oed i'r rheini sy'n anfodlon cydnabod mai sefydlu'r *Dinesydd* oedd y cam cyntaf mewn creu mudiad sydd wedi bwrw gwreiddiau, ac egino ac sydd bellach yn dwyn ffrwyth ar ei ganfed — gwyrth (a 'does dim gair arall am y peth) y papurau bro sydd wedi codi fel madarch ym mhob rhan o Gymru dros y pum mlynedd diwethaf. Ac yn awr, ac yntau newydd ddathlu cyhoeddi ei hanner-canfed rhifyn, wele'r *Dinesydd* misol yn ymddangos mewn diwyg newydd ar faes Eisteddfod Caerdydd — fel *Y Dinesydd Dyddiol*, y papur-newydd dyddiol Cymraeg cyntaf a welodd Cymru erioed. Cam mawr felly, o fod yn bapur bro bach misol i fod yn bapur sy'n ceisio cystadlu (am wythnos o leiaf) gyda boll adnoddau ac arian papurau mawr fel y *Western Mail* a'r *Daily Post*. Mae'r stori y tu ôl i'r cam hwn yn mynd yn ôl dros rai blynyddoedd. Criw bach yn eistedd mewn pabell fwyd ar y maes yn Rhuthun ym 1973 yn cnoi brechdanau sych ac yn yfed te gwaeth, yn cwyno am na fuasai'r *Cymro*, yr unig bapur Cymraeg a'r adnoddau i wneud, yn ymddangos yn ddyddiol dros wythnos yr Eisteddfod o leiaf. Pawb wedi blino'n lân ar ddarllen newyddion y Steddfod yn Saesneg bob dydd, ac yn teimlo'n sicr y byddai gwerthiant gwych i unryw bapur Cymraeg a allai lenwi'r bwlch.

Golygfa: blwyddyn yn ddiweddarach yng Nghaerfyrddin, criw ychydig yn wahanol, sgwrs 'run fath. Dal i ddiawlio'r *Cymro* am eu diffyg menter, a phenderfynu gwneud rhywbeth eu hunain, hyd yn oed petae hynny'n ddim byd mwy na chynhyrchu ychydig o ddalennau wedi eu dyblygu o newyddion y dydd.

Blwyddyn arall yn mynd heibio heb i ddim ddigwydd ac yna, dyma ni ar y maes yn Aberteifi, ym mhabell cwmni Cyhoeddi Cleglen, argraffwyr *Y Dinesydd*, yn dosbarthu'r rhifyn cyfredol o'r papur. Roedd Henri Davies, perchennog Cleglen, wedi dod â pheiriant argraffu i'r Maes ac wrthi'n argraffu penawdau llythyron ac ati yn y fan a'r lle. Yn sydyn, dyna lle'r oeddem ni'n son am argraffu'r *Dinesydd* ar y Maes — nid un rhifyn, ond sawl un — pam ddim bob diwrnod o wythnos yr Eisteddfod? Yn sydyn, ymddangosai'r breuddwyd yn bosibilrwydd go iawn, o'r diwedd.

Rhaid dweud gair o ddiolch yn y fan hon i Henri Davies am ei holl gefnogaeth i'r fenter hon. Y mae Henri a'i staff wedi cydweithredu ymhell y tu hwnt i ofynion eu dyletswydd fel argraffwyr y papur, oherwydd diddordeb Henri yn *Y Dinesydd* ei hun, a'i gefnogaeth gadarn i'r Gymraeg a Chymreictod yn gyffredinol. Mae'r ffaith fod y peiriant argraffu ei hun ar y Maes, heblaw am hwyluso'r gwaith, yn atyniad ychwanegol ynddo'i hun sy'n siwr o ddenu nifer fawr o Eisteddfodwyr i wylio'r broses gynhyrchu yn y fan a'r lle.

Diolch hefyd i'r Eisteddfod am gydnabod y gwasanaeth yr ydym yn ceisio ei ddarparu drwy roi pabell i ni am ddim ar y Maes.

Felly, dyma ni, *Y Dinesydd Dyddiol*, papur dyddiol Cymraeg cyntaf Cymru, ar y Maes ym Mhentwyn, yn barod i wasanaethu ein darllenwyr hyd at eithaf ein gallu. Dim ond un peth arall sydd ei angen i sicrhau llwyddiant y fenter hon — eich cefnogaeth chi'r darllenwyr. Felly, prynwch *Y Dinesydd Dyddiol* BOB DYDD, i gael holl newyddion y Steddfod — gan obeithio mai Steddfod Caerdydd 1978 fydd y Steddfod orau eto!

# Adlais Sŵn y Gerddoriaeth

Syndod i lawer oedd gweld hysbyseb fawr yn rhaglen Canolfan Gelfyddydau Chapter yng Nghaerdydd yn cyhoeddi *premiere* rhyngwladol ffilm Gymraeg newydd. Yn ôl y daflen, cynhyrchiad gan Dino de Laurentis a Carlo Ponti (mewn cysylltiad â Chyngor Celfyddydau Cymru) yw *Sŵn y Gerddoriaeth*, sef fersiwn newydd o stori'r teulu Trapp, wedi ei leoli y tro hwn yng Nghwm Rhondda yn hytrach nag yn Awstria!

Ar ôl darllen 'mlaen dipyn, 'roedd dyn yn sylweddoli mai jôc oedd yr holl daflen (e.e. tymor o ffilmiau ar anifeiliaid bach yn cynnwys *Deep Stout*, *Annie Vole* a *Butch Cassidy and the Sudance Ferret*, "Topless Organ Recital" yn y theatr a chyngerdd gan Gerddofa Ffilharmonig Berlin ("a new German group") a Brigad Dân Ballachulish) a chwarae teg, rhaid llongyfarch staff Chapter am chwarae jôc mor ddifyr ar eu haelodau i lonni tipyn ar haf digon diflas.

Yn anffodus, plagiwyd Chapter ers hynny gan Gymry Cymraeg yn ffonio ac yn ysgrifennu yno i archebu tocynnau ar gyfer *Sŵn y Gerddoriaeth*, gan droi'r jôc yn ôl yn erbyn Chapter! I wneud pethau'n waeth, does gan y Ganolfan ddim Cymry Cymraeg ar y staff ac y mae ceisio delio a'r ceisiadau Cymraeg hyn wedi mynd yn dipyn o faich. Erbyn wythnos diwetha, roedd gweinyddwr Chapter yn dechrau difaru i neb feddwl am chwarae jôc yn y lle cyntaf, ac yn dyheu am ddyfodiad y Steddfod i roi rhywbeth arall i'r Cymry Cymraeg feddwl amdano fe!

### CYMDEITHAS Y DAFYDD

**Cynhelir cyfarfod o gyn-aelodau ac aelodau presennol Cymdeithas Dafydd ap Gwilym ar faes yr Eisteddfod ddydd Mercher, Awst 9fed am dri o'r gloch. Gofynnir i bawb sy'n dod i ymgynnull i ddechrau wrth Brif Fynedfa'r Comisiwn Coedwigo. Yno fe benderfynir ar y cam nesa!**



*Siwan Jones (Blodeuwedd) a Marian Williams (Rhagnell) mewn golygfa o* Blodeuwedd sy'n cael ei pherfformio heno yn Theatr Bute am 7.30.

# POBOL CWMDREWI

gan Barri Morgan a P.R.Penarth




(i'w barhau)

# CORNEL Y DYSGWYR

**Mae'n go debyg mai un o'r mannau mwyaf bywiog ar y maes yr wythnos hon fydd Pabell y Dysgwyr. Mae pwyllgor y dysgwyr wedi paratoi rhaglen amrywiol sy'n sicr yn cynnwys rhywbeth ar gyfer pob dant. Fe fydd cyfle i ymlacio, i ganu ac i ddawnsio, ac i fwynhau adloniant amrywiol gyda rhai o artistiaid mwyaf poblogaidd Cymru. Fe fydd cyfle hefyd i ymarfer yr iaith mewn sgwrs answyddogol, mewn gwers ac mewn trafodaethau. Wrth law bob dydd fe fydd aelodau o'r pwyllgor i roi cyfarwyddyd, i gynnal sgwrs ac i gynnig diod (coffi, wrth gwrs!). Ar gael o fewn y babell fe fydd gwybodaeth am weithgareddau pob mudiad sy'n ymwneud â dysgu Cymraeg ledled Cymru.**

Y prif ddigwyddiad heddiw, wrth reswm, yw seremoni agor y babell, a'r gŵr a gafodd ei ddewis yn unfrydol gan y pwyllgor i gyflawni'r dasg hon ydy Craig Bohren, yr Americanwr hynaws sy wedi dod mewn byr amser yn huawdl yn y Gymraeg. Fe fydd y dysgwyr yn cael eu croesawu i'r Eisteddfod yn ystod y seremoni gan Gadeirydd y Pwyllgor Gwaith, Mr Emyr Currie-Jones, a chan ferch ifanc o Ysgol Uwchradd Glynderw, Jill Horwood, hithau erbyn hyn yn ddysgwraig rugl ac yn sefyll Arholiad Safon Uwch yn y Gymraeg y flwyddyn nesaf.

Fe fyddwn yn rhoi gwybodaeth ychwanegol o ddydd i ddydd am y gwahanol weithgareddau yn *Y Dinesydd Dyddiol*, ond rhag ofn i neb gredu mai ar gyfer oedolion yn unig mae'r cwbwl, gwell tynnu sylw at y pantomeim fydd yn cael ei berfformio ddydd Iau. Er mwyn sicrhau y bydd y plant yn gallu gwerthfawrogi'r perfformiad, mae taflenni yn cynnwys yr eirfa a'r cystrawennau fydd yn cael eu defnyddio wedi eu hanfon i ysgolion y cylch. Gobeithio bod y plant (a'r athrawon!) wedi gwneud eu gwaith cartref! Fe fydd nifer o gopïau dros ben ar gael yn y babell.

Un apêl garedig at y Cymry Cymraeg, ar i chi wneud ymdrech arbennig yr wythnos hon i gymdeithasu â'r dysgwyr. Dewch i ymweld â nhw yn y babell. Tynnwch sgwrs â nhw ar y maes; fe fydd yn hawdd eu hadnabod gan y bydd pob un ohonyn nhw (gobeithio!) yn gwisgo bathodyn arbennig. Dewch hefyd i noson gymdeithasol y dysgwyr; fe fydd llwyddiant y noson yn dibynnu i raddau helaeth ar barodrwydd Cymry Cymraeg i ddod i siarad â'r dysgwyr ac i ymuno'n naturiol yn y miri. Mae'n bwysig, yn enwedig yr wythnos hon, ein bod yn dangos i'r dysgwyr fod croeso cynnes iddyn nhw i'r gymdeithas Gymraeg drwy roi help llaw iddyn nhw groesi'r bont.

BEN HARRIES.

# Dim Merched i Ginio!

**Diddorol sylwi bod holl Gylchoedd Cinio Cymru wedi'u gwahodd i ginio yn Llaneirwg yr wythnos hon. Rhyfedd yn yr oes oleuedig hon o gydraddoldeb na welodd neb yn dda i wahodd y ddau Gylch Cinio gwragedd sydd yng Nghymru, sef Cylch Cinio Gwragedd Caerdydd a Chylch Cinio Gwragedd Penybont ar Ogwr. Tybed a oes gan ferched Gylch Cinio mewn rhannau eraill o Gymru? Dewch ferched — ymegniwn i fynnu'n hawliau!!!**

## "Pwy yw siarc y Maes Parcio?"

*Mae modd prynu tocyn wythnos ar gyfer maes parcio y 'Steddfod am bum punt, ond os nad ydych am wibio nôl a mlaen sawl gwaith y dydd, fe fyddwch ar eich colled. 80c y dydd yw'r tâl sylfaenol, ac am fynd i'r maes o ddydd Llun hyd y Sadwrn, fe fyddwch wedi talu £4.80. Mae'n wir y byddwch ar eich ennill os ydych am fynd i'r cyngherddau, ond os am y dramau gyda'r hwyr, yna byd siarc y maes parcio wedi eich trechu!*

# Y BRIFWYL O'R BRIFDDINAS

Gwasanaeth cynhwysfawr HTV Cymru o Faes Eisteddfod Caerdydd i Gymru benbaladr.

POB BORE o ddydd Llun hyd ddydd Sadwrn gan ddechrau am 10a.m. bob dydd, dwy awr o'r Wyl yn fyw o lwyfan yr Eisteddfod.

Y PRIF SEREMONÏAU — dydd Mawrth Y Coroni, dydd Iau Y Cadeirio, dydd Gwener Croesawu'r Cymry Alltud — oll ar HTV Cymru.

PENAWDAU'R NEWYDDION am 1.20p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener o Faes y Brifwyl.

Y DYDD a REPORT WALES. *Y Dydd* o'r Maes bob dydd o ddydd Llun hyd ddydd Gwener am 6p.m. *Report Wales* am 6.18p.m.

RHAGLEN DDWYIEITHOG EI CHYFLWYNIAD bob nos am 6.30p.m. o nos Fawrth hyd nos Wener, ac ar nos Sadwrn am 5.55p.m.

Y GADAIR A GWOBR GOFFA DANIEL OWEN — Caiff HTV Cymru yr anrhydedd o gyflwyno'r gadair a hefyd gwobr Goffa Daniel Owen yng nghystadleuaeth y nofel.

YR WYTHNOS. Rhifyn arbennig o'r *Wythnos* nos Lun yr Wyl am 8.30p.m. yng nghwmni Cenwyn Edwards.

AR Y MAES — gwasanaeth cyfieithu i'r di-Gymraeg, Pabell Groeso, Pabell y Plant, taflen y dysgwyr, lliw a llun stiwdio a baneri'r Cwmni — cyfraniad i fywyd, gweithgarwch a sioncrwydd y Maes.

Ymunwch â ni

YN DATHLU DENG MLYNEDD O WASANAETH
o Faes y Brifwyl ac o'r Ganolfan Deledu
yng Nghaerdydd.

HTV
CYMRU WALES

# CROESO I FAES YR EISTEDDFOD
## OND COFIWCH
## AM Y PETHAU A GYNHELIR
## MEWN MANNAU ERAILL

**Y THEATR NEWYDD**

Nos Lun, Nos Fawrth — Y TŴR (Gwenlyn Parry)
Cwmni Theatr Cymru

Nos Fercher, Nos Iau — OPERA ROC — DIC PENDERFYN
Cwmni Theatr yr Ymylon

Nos Wener, Nos Sadwrn — PASIANT CYFLWYNO CAERDYDD
Plant Ysgol Bryntaf

**THEATR BUTE**
(Coleg Cerdd a Drama)

Nos Lun, Nos Fawrth, Nos Fercher — BLODEUWEDD (Saunders Lewis)
CWMNI COLEG ABERYSTWYTH

**COLEG CYNCOED**

Tri Chyngerdd Siambr
(5.00p.m.)
Mawrth: Offerynwyr Coleg Cerdd Cymru
Mercher: Consort Pres Cymreig
Iau: Côr Telynau Ann Griffiths

**LLYFRGELL SALISBURY**
**(Coleg y Brifysgol)**

DRWY WYTHNOS YR EISTEDDFOD
ARDDANGOSFA O LYFRAU PRIN

**THEATR Y SHERMAN**

Nos Lun —, Nos Fawrth — Y LLINYN ARIAN (ffilm)

Nos Fercher — EQUUS (Peter Shaffer)
Cwmni Coleg y Drindod

Nos Iau — CYSTADLEUAETH ACTIO
Cwmni Heol y Crwys
Cwmni Llwyndyrus
Cwmni'r Dewin

Nos Wener, Nos Sadwrn — NOS YSTWYLL (cyf. J.T. Jones *o Twelfth Night.*)
Cwmni'r Eisteddfod


**THEATR YR ARENA**
(yn adeilad y Sherman)

Nos Lun — RHWNG BYW A MARW
(detholion o ddramâu Samuel Beckett)

Nos Fawrth, Nos Fercher — PRY YN Y PREN
(rhaglen amrywiol yn cynnwys TRI CHYFAILL gan John Gwilym Jones)

Nos Iau, Nos Wener, Nos Sadwrn — THEATR BYPEDAU
Jane Phillips

Theatr yr Ymylon
yn
Y Pembroke Terrace
Churchill Way, Cardiff



Rhydwen Williams fel Daniel Owen
yn darllen

"HUNANGOFIANT RHYS LEWIS"

Llun, Awst 7fed — Dydd Sadwrn Awst 12fed. 7.45p.m.
Tocynnau £1.00. Plant 50c.
Swyddfa tocynnau, Caerdydd 372231

# LLYS YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL

Cefnogwch waith yr Eisteddfod
Ymunwch â chorff llywodraethol
y Brifwyl

Prynwch gyhoeddiadau'r Llys:
YR EISTEDDFOD
gan
Hywel Teifi Edwards
(Pris £1.75)

Cyfrol Medal Ryddiaith Wrecsam:
TRIPTYCH
gan
R. Gerallt Jones
(Pris £1.00)

**FFURFLEN AELODAETH**

Dymunaf fod yn aelod o Lys yr Eisteddfod Genedlaethol

ENW: ..........................................................

ENW LLAWN:

CYFEIRIAD: ..................................................

...................................................................

...................................................................

Amgaeaf danysgrifiad o:

£2 (lleiafswm) am aelodaeth blwyddyn
£20 am aelodaeth oes

**Anfoner at:** D. Hugh Thomas, Ysgrifennydd Aelodaeth, Llanfaes, 50 Church Road, Baglan, PORT TALBOT.

**NEU:** GADEWCH YR AMLEN YN *Y BABELL YMHOLIADAU* AR Y MAES.

# UCAC

## Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Yr unig Undeb athrawon sydd 100% o blaid Cymreictod. Yr unig Undeb Llafur annibynnol sydd â'i Bencadlys yng Nghymru ac sy'n buddsoddi ei arian i gyd yng Nghymru. Manylion pellach oddi wrth: Gareth Miles, Trefnydd Cenedlaethol UCAC, 11 Heol Gordon, Caerdydd CF2 3AJ. (Ffôn: 494692)

OS BYDDWCH YN PRYNU NEU'N GWERTHU, MAE'N TALU FFORDD I YMGYNGHORI A'R ARBENIGWYR.

**antiques** UNLIMITED

PRYNIR EITEMAU SENGL NEU GYNNWYS TAI YN EU CRYNSWTH

7 Heol Penllin Yr Eglwys Newydd, Caerdydd. Tel: 62748 neu 616415.

---

Os hoffech gael sgwrs yn Gymraeg wrth chwilio am ddarnau sbâr i'ch car, ymwelwch â:

**METELAU LLANDOW**

Mynwent o gerbydau a mynydd o sgrap!
RHIF FFÔN:
LLANILLTUD FAWR
2756

---

# POSTERI CERDDI

**Cynnig arbennig 3 am bris 2**
**cludiad am ddim**

Fel arfer £1.00 yr un yw pris posteri lliw 20" × 30". Am gyfnod byr yn unig rydym yn gwerthu drwy'r post 3 am £2.00. 3 am bris 2.

Ysgrifennwch i ddweud pa 3 poster yr hoffech gael ac anfonwch £2.00 (yn daladwy i ORIEL) at: ORIEL, Cyngor Celfyddydau Cymru, 53 Heol Siarl, Caerdydd CF1 4ED

| | |
|---|---|
| A1 | Yr Wylan - Dafydd ap Gwilym |
| A2 | The Seagull - Glyn Jones |
| A3 | A Child's Christmas in Wales - Dylan Thomas |
| A4 | Dysgub y Dail - Crwys |
| A5 | Fern Hill - Dylan Thomas |
| A6 | Cynddylan on a Tractor - R S Thomas |
| A7 | Hon - T H Parry-Williams |
| A8 | Cofio - Waldo Williams |
| A9 | Eifionydd - R Williams Parry |
| A10 | Maggie Fach - Idris Davies |
| A11 | Carol y Crefftwr - Iorwerth C Peate |
| A12 | I Wallt Merch - Dafydd ab Edmwnd |
| A13 | Do you Remember 1926? - Idris Davies |
| A14 | Cara Wallia Derelicta - David Jones |
| A15 | Machlud - Alan Llwyd |
| A16 | Eisteddfod 1176-1976 |
| A17 | Aberdaron - Cynan |
| A18 | Y Fantell Fraith - I D Hooson |
| A19 | Eryr Pengwern |

**Special Offer 3 for the price of 2**
**post free**

Normally these full colour 20" × 30" posters retail at £1.00 each. For a limited period only we can offer them for sale, by post only, at 3 for £2.00. 3 for the price of 2.

Write, stating your choice of 3 posters and enclosing £2.00 (payable to ORIEL) to: ORIEL, Welsh Arts Council, 53 Charles Street, Cardiff CF1 4ED

# POEM POSTERS

---

# Croeso i Gastell Caerdydd

An invitation to dine at Cardiff Castle —



Estynnwn wahoddiad i chi i ymuno gyda ni mewn noson o ddifyrrwch a cherddoriaeth traddodiadol Gymraeg.

Venez passer une bonne soirée dans l'ambiance médiévale de nos anciennes traditions galloises de chants, de musique et de gaieté.

Komt u eens een avond met traditionele gastvrijheid van Wales bijwonen. Een avond van lekker eten en gezellige muziek in een romantische omgeving.

You are invited to share in an evening of Welsh hospitality - a delicious traditional feast accompanied by the lovely melodies of Wales and the ingenious compositions of the Tudor Court sung by the enchanting ladies of Morgannwg accompanied by harp and minstrels.

For bookings: Telephone CARDIFF 372737

# MOUNT SORREL

**HEOL PORTHCERI**
**Y BARRI, DE MORGANNWG ☎740069**
****A.A.* ***R.A.C.*

GWESTY GYDA 40 O YSTAFELLOEDD GWELY.
(35 gyda ystafelloedd ymolchi preifat)
Teledu Lliw, Radio a Ffôn ymhob ystafell.

CYNADLEDDAU PRIODASAU CINIO A DAWNS

DEWCH I'R BARRI

unrhyw amser

Hawdd cyrraedd yno o faes yr Eisteddfod
3 milltir o Faesawyr y Rhŵs
8 milltir o Gaerdydd
Ystafell fwyta a bariau cyhoeddus



## Taith Gymreig Côr Gwladwriaeth Hwngari

(Côr Kodaly o Debrecen)

6ed i'r 25ain Tachwedd
1978

Cwmbran, Aberdâr, Caerdydd, Abertawe, Ystrad Mynach, Porthcawl, Castell Nedd, Treorci, Caerfyrddin, Aberystwyth, Crymych, Llwchwr, Queensferry, Caernarfon, Porthmadog, Sir Fôn, Conwy, Rhyl.

*Manylion gan:*
*Gyngor y Celfyddydau, 9 Stryd yr Amgueddfa,*
*Caerdydd CF1 3NX. Ffôn: 394711*

**LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU**
**ABERYSTWYTH SY23 3BU**

**Cyhoeddiadau cyson y Llyfrgell**

- Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru — sy'n ymddangos bob hanner blwyddyn. Tanysgrifiad blynyddol o 1979 ymlaen — £3.00.
- Rhestr Llawysgrifau sydd yn y Llyfrgell. Prisiau rhwng 20c a 40c y Rhan.
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru — Crynodeb Byr o'i Hanes a'i Gweithgareddau. Pris 10c.
- Bibliotheca Celtica — cofrestr cyhoeddiadau sy'n berthnasol i bobl a ieithoedd Cymru a'r gwledydd Celtaidd. Prisiau yn amrywio.

**Llawer o hen gyhoeddiadau ar werth, gan gynnwys —**

- Cyfansoddiadau'r Eisteddfod Genedlaethol — amryw o flynyddoedd rhwng 1888 a 1942 25c a 15c
- Cofrestr o'r holl Lyfrau Printiedig gan mwyaf a gyfansoddwyd yn y Iaith Gymraeg (1912) 20c
- Rhestr o Lyfrau a argraffwyd yng Nghaerfyrddin gan John Ross rhwng y blynyddoed 1763 a 1807 (1916) 25c
- Rhestr o Lyfrau gan y Parch. William Williams Pantycelyn a argraffwyd rhwng 1744 a 1800 (1918) 25c
- 'Series of Old Welsh Texts', a olygwyd gan J. Gwenogfryn Evans:
  Poetry by Mediaeval Welsh Bards 55c
  Llyfr Iob 10c a 5c

Y mae cludiad yn ychwanegol at y prisiau uchod. Gellir cael manylion holl gyhoeddiadau'r Llyfrgell drwy anfon a y **Rhestrau Cyhoeddiadau** at Ysgrifennydd y Llyfrgell yn y cyfeiriad uchod neu ffonio 0970/3816-9, estyniad 206.


# A oes gennych blentyn dan oed ysgol?

A hoffech i'r plentyn dderbyn addysg feithrin Gymraeg?

Os nad oes gennych wybodaeth am Gylch Meithrin Cymraeg o fewn cyrraedd i chwi, anfonwch air atom, ac fe gewch y manylion am Swyddog Datblygu eich ardal, ac am y Cylch Meithrin agosaf i'ch plentyn ei fynychu.

*Anfoner at:-*
*Y CYFARWYDDWR,*
*MUDIAD YSGOLION MEITHRIN,*
*CANOLFAN YR URDD,*
*HEOL CONWY,*
*CANTON,*
*CAERDYDD.*
*FFÔN: 36113*

**CRASBOETH o'r LOLFA!!**




**Nofel antur/dditectif orau'r ganrif yn Gymraeg. £1.95**




**Cant o dafarnau gorau Cymru gyda llun a malu cachu am bob un. £1.25**





**Y Llewod diweddara! 85c yr un**

**Mynnwch ein catalog rhad.**

**Y Lolfa**

Talybont Ceredigion ffôn 304



**MISTAR URDD**

Aelod enwoca'r Urdd
ac arwr plant Cymru

Galwch heibio i'w weld
yn **SIOP MISTAR URDD**
**ar faes Eisteddfod Caerdydd**

CYMDEITHAS
**TAI GWYNEDD**

- Erbyn diwedd 1978, bydd y Gymdeithas elusennol hon wedi darparu 27 o gartrefi i deuluoedd ym mhentrefi Gwynedd.
- Gellwch ein helpu i ddarparu mwy drwy roi benthyg arian i'r Gymdeithas ar log o 6% — neu'n ddi-log.

*Manylion pellach oddi wrth:*

*Y Trefnydd, Cymdeithas Tai Gwynedd, Penygroes, Caernarfon, Gwynedd.*

Croeso i babell
## Cymorth Cristnogol
i weld......
Arddangosfa gan Ysgolion Cyfun Llanhari a Rhydfelen
ac Ysgol Howells, Caerdydd;
hefyd lluniau o gynlluniau á gefnogwn.
i brynu......
Bathodynnau, Beiros, Defnyddiau a Chardiau Nadolig. Dewch heibio am 'baned o goffi yn ystod yr wythnos.
*SAFWN DROS GYFIAWNDER A DANGOSWN DOSTURI TUAG AT EIN CYD-DDYN.*

*Urdd Gobaith Cymru*
Cwmni Drama Aelwyd Caerdydd yn cyflwyno
**RIFIW**
**'NEB YN DEILWNG'**
ARENA
THEATR Y SHERMAN
Nos Iau Awst 10
Nos Wener Awst 11
Nos Sadwrn Awst 12
am 10.30 o'r gloch
**MYNEDIAD £1**
Tocynnau ar gael o:-
Babell y Ganolfan ar y maes

***GWERIN***
Uned 74 ar y maes
Cofiwch alw

Siop:-
102 Heol Albany
Y Rhath
Caerdydd
Ffôn: 496615

Elwyn Williams (Athro Coleg Cerdd a Ddrama Cymru, a chyn fyfyriwr Academi Cerddorol Frenhinol, Llundain, ac Academi Gerddorol Sant Cecilia, Rhufain) yn derbyn Disgyblion mewn piano, llais, arwain (corawl a cherddorfaol), a chyfeiliant. Hefyd hyfforddiant am weithgareddau arbennig e.e. eisteddfodau, a chyngherddau etc. Telerau rhesymol.
Am ragor o fanylion ysgrifennwch neu ffoniwch:
Elwyn Williams,
41 St. Benedict Cres.,
Heath, Caerdydd.
Ffôn: 611435.

**Siop Eifionydd**
Porthmadog

Pob math o
offeryniau cerdd.
Llyfrau a recordiau.
Ffôn: (0766) 2795

**Cyhoeddwyr Cleglen Cyf,**
**(Argraffwyr),**
**Ffôn: (0222) 396262**

# Gwneud hanes

Mae Cwmni Cyhoeddi Cleglen Cyf yn falch o fod wedi darparu'r modd i alluogi papur dyddiol Cymraeg cyntaf Cymru, *Y Dinesydd Dyddiol*, i gael ei argraffu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd.

**CLEGLEN + AP DAFYDD**

# Camp y Cwm!

**Blwyddyn gron yn ôl daeth Mr Trefor Phillips, Cadeirydd Pwyllgor Cyllid yr Eisteddfod, a Mr W.J. Jones, Ysgrifennydd y Pwyllgor Gwaith, ar bererindod i neuadd Ysgol Gymraeg Caerffili i annerch dyrnaid o selogion yr Ŵyl er ceisio'u hannog i gynorthwyo tlodion Caerdydd drwy sefydlu cronfa leol. Cytunwyd i dderbyn yr her ac i anelu am bum mil o bunnoedd er, ar y pryd, nid oedd neb yn credu fod y fath swm yn bosibl mewn ardal y tu allan i ffiniau'r Brifddinas. Prin ddwy flynedd ynghynt roedd y Cwm wedi cyflawni gwyrthiau trwy gasglu tair mil at Gronfa'r Mil o Filoedd a'r gred gyffredinol oedd fod yr ardal wedi chwythu'i phlwc.**

Ond nid felly y bu. Yn hytrach, profwyd mai hawdd cynnau tân ar hen aelwyd ac ail-sefydlwyd y pwyllgorau hynny a fu wrthi ddwy flynedd yn ôl; daeth rhagor o weithwyr i mewn i'r cylch; sicrhawyd deg o bwyllgorau lleol ym mhentrefi a threfi'r Cwm ac aed ati ar unwaith i geisio'r nôd— gyda nosweithiau coffi, cyngherddau, casgliadau o ddrws i ddrws, teithiau cerdded, gwau noddedig, arddangosfa gwaith llaw fendigedig yn Nhredegar Newydd, ac ymlaen, ac ymlaen. Yn ogystal derbyniwyd cymorth gan nifer o bobl amlwg yr ardal a chan ddiwydiannau lleol — yn arbennig cwmni Compact Cases a gyfrannodd £750 i'r gronfa leol a chwmni Catnic Components a roddodd fil o bunnoedd at bafiliwn Gwyddoniaeth a Thechnoleg yr Eisteddfod. Roedd ymateb Cyngor Ardal Cwm Rhymni hefyd yn gymorth i lwyddiant y Gronfa. Ar wahân i gyfrannu £400 i'r casgliad lleol cytunodd y Cyngor i ddarparu dau fws arbennig y diwrnod i deithio o ben y Cwm i faes yr Eisteddfod. Llwyddodd hyn i godi diddordeb yn yr Eisteddfod.

Ac felly, ar ddechrau Gorffennaf, cyhoeddwyd fod y nod wedi'i basio a bod dros £5,200 wedi'i dalu i goffrau'r Eisteddfod — ar wahan i'r arian gan gwmni Catnic.

Wrth gyflwyno'r arian i Mr Emyr Currie-Jones, dywedodd Mr Dafydd Islwyn, Cadeirydd y Pwyllgor yn y Cwm, mai un o brif rinweddau'r casgliad oedd y ffaith iddo ysgogi cymaint o weithgarwch a bod cymaint o drigolion y Cwm wedi dod at ei gilydd am y tro cyntaf i gyd-weithio dros achos yr Eisteddfod.

**GARETH ROBERTS**

*Rhai o gerddwyr Cwm Rhymni yn torri syched ar ben Mynydd Caerffili â chwrw a lemoned!*




AM GYRSIAU ADDYSG OEDOLION YNG

NGHANOLFAN OEDOLION YR EGLWYS NEWYDD

Anfonwch amlen wedi'r chyfeirio am raglen i Mr Colin Payne, Pennaeth y Dalgylch, Ysgol Eglwys Newydd (Isa), Glanynant, Caerdydd, neu ffoniwch 614392 neu 755034


# Iglw newydd Pentwyn!

Hwyrach fod yr holl sôn am drafferthion symud a chodi'r Pafiliwn newydd yng Nghaerdydd wedi tynnu sylw oddi wrth y ffaith fod yna Bafiliwn arall newydd sbon ar faes y Brifwyl eleni. Roedd Peter Jones, Cyfarwyddwr Celfyddyd Cyngor Celfyddydau Cymru yn ei elfen wrth son am y Pafiliwn Celf a Chrefft newydd, "Rwyf wedi bod yn dadlau dros sicrhau arddangosle teilwng i gynnyrch celf a chrefft Eisteddfod Genedlaethol Cymru ers pedair blynedd ar ddeg," meddai, "ac o'r diwedd dyma Bafiliwn Celf a Chrefft y gallwn fod yn wirion-eddol falch ohono."

Wrth gofio trychinebau drafftiog, gwlyb, anrhefnus rhai Eisteddfodau blaenorol rhaid bod hyn yn ollyngdod mawr i unryw un sy'n ymddiddori o gwbl yn y celfyddydau gweledol ar faes y brifwyl.

Dyluniwyd y pafilwn newydd gan Graham Milsom, aelod o bartneriaeth Alex Gordon, ar gomisiwn gan Gyngor y Celfydd-ydau ac yn wahanol iawn i'r prif bafiliwn, gellir ei godi a'i dynnu i lawr yn hwylus, mewn byr amser. Dau brif strwythur sydd i'r adeilad: ffrâm Miro y gellir ei rhoi lan mewn dau ddiwrnod, a muriau o ddefnydd arbrofol newydd a ddatblygwyd gan gwmni Structaply. Deunydd cyfansawdd yw'r muriau wedi ei ffurfio o haenau o 'plywood' oddeutu cnewyllyn 'polystyrene', a dyma'r tro cyntaf erioed i'r deunydd hwn gael ei ddefnyddio i ddiben o'r fath. Yn wir, ei brif ddefnydd hyd yn hyn yw mewn waliau tai yn yr Arctig — felly mae gobaith cadw'n dwym a chlyd yn y Pafiliwn hwn, waeth pa mor ofnadwy fydd y tywydd Eisteddfodol!

Os mai sych a llychlyd fydd hi, wel, mae'r drysau'n rhai arbennig i gadw'r llwch allan — gwir fendith, o gofio llwch mawr Eisteddfod Wrecsam llynedd. Mae 'na garpedi iawn ar y llawr, am y tro cyntaf erioed, ac mae 'na obaith y bydd y to metal yn ddigon diddos i gadw'r glaw trymaf allan (er mai to dros dro ydyw; dyma'r unig ran o'r pafiliwn newydd sy'n dal heb ei gwblhau).

Y tu fewn i'r pafiliwn Celf a Chrefft 1, mae'r waliau'n glir ac yn blaen, heb ddim arnynt i gyfyngu ar y gofod arddangos ei hun, ac y mae yna ddigon o oleuni ar ffurf goleuadau stribed disglair. Yn wir, gallai dyn gredu ei fod yn camu i mewn i oriel barhaol â phob cyfleuster modern wrth fynd i mewn i'r Pafiliwn newydd — ac yn wir, dyna'r bwriad.

" 'Does dim byd llai na'r cyfleusterau arddangos mwyaf modern a mwyaf effeithiol yn ddigon da i'n Gŵyl Genedlaethol," meddai Peter Jones.

Mae'r ffaith fod y Pafiliwn Celf a Chrefft (neu Balas Celf a Chrefft hwyrach y dylem ddewud erbyn hyn!) mor hawdd i'w godi a'i dynnu i lawr a'i symud o gwmpas yn fonws ynddo'i hun. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru, mewn cydweithrediad â'r Eisteddfod Genedlaethol, yn bwriadu defn-yddio'r Pafiliwn ar o leiaf ddwy safle arall yng Nghymru cyn Eisteddfod Caernarfon flwyddyn nesaf, gan ddod ag arddangos-feydd felly o fewn cyrraedd i ardaloedd yng Nghymru lle nad oes yna'r un oriel ar hyn o bryd.

# RHAGLEN HEDDIW… …A HENO

| | |
|---|---|
| **Y PAFILIWN** | 9.30 Seremoni Agoriadol<br>Bandiau Pres A B C<br>3.00 Araith Llywydd y Dydd : Gwilym Roberts<br>4.45 Y Brif Gystadleuaeth Gorawl |
| **Y BABELL LÊN** | 11.00 Agor y Babell Lên. Norah Issac<br>1.30 Llenydda yn y Dre<br>4.00 Ymryson y Beirdd (Morgannwg v. Y Colegau) |
| **Y THEATR FACH** | 10.45 Agor y Theatr Fach. Rachel Howell Thomas<br>12.00 Y Ddrama Deledu: Cynhyrchu (George Owen)<br>2.00 Theatr Caricature "ABC Caerdydd" |
| **Y STIWDIO GERDD** | 10.30 Agor y Stiwdio Gerdd: Dr D.E. Parry Williams<br>11.00 Trafodaeth ar gyngerdd y Sul<br>1.00 Gwerthu tocynnau cyngherddau siambr<br>2.00 Cerddoriaeth Karl Orff |
| **PABELL Y CYMDEITHASAU** | 2.30 Cymdeithas Barddas |
| **PABELL Y DYSGWYR** | 10.30 - 11.00 bob dydd Paned a Sgwrs (ddim dydd Iau)<br>11.30 Agor Pabell y Dysgwyr. Dr Craig Bohren<br>12.00 Cofrestru ar gyfer y grwpiau iaith<br>4.00 Sleidiau o Gaerdydd |
| **Y SHERMAN 7.30** | Y LLINYN ARIAN<br>'Rhyfeddod Gwanwyn'<br>Ffilm a meim |
| **YR ARENA (Sherman) 7.15** | RHWNG BYW A MARW<br>Coleg Cerdd a Drama |
| **Y THEATR NEWYDD 7.30** | Y TŴR<br>Cwmni Theatr Cymru |
| **THEATR BUTE Coleg Cerdd a Drama 7.30** | BLODEUWEDD<br>Cwmni Coleg y Brifysgol, Aberystwyth |
| **Y PAFILIWN 7.30** | Pasiant ysgolion eilradd<br>TONFEDD '78 |
| **TITO'S 10.30** | Trwynau Coch<br>Disgo'r Ddraig Goch |
| **ERAILL** | Clwb Trydan, Pontcanna<br>8.00 Twmpath Dawns |
| **CAPEL PEMBROKE TERRACE, CHURCHILL WAY** | HUNANGOFIANT RHYS LEWIS<br>Theatr yr Ymylon 7.45 |

# Marw mewn Damwain

Bu farw Ifan Harries, 23 mlwydd oed, o Stryd Bangor, Plasnewydd pan aeth y car yr oedd ef yn ei yrru i wrthdrawiad a char arall yn heol y Bontfaen pan oedd yn gyrru i'r gwaith fore Gwener, Gorffennaf 28ain; roedd yr angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen ddydd Iau, Awst 3ydd.

Ganed Ifan yn Albany Road, Caerdydd ac yr oedd yn un o gyn-ddisgyblion Ysgol Gerddi Howard, Caerdydd. Yr oedd yn aelod gweithgar dros ben o gangen Plasnewydd Plaid Cymru, ac yn aelod o'r Pwyllgor Etholaeth hefyd. Ef oedd Ysgrifennydd Clwb Ceir Siroedd Cymru ers dwy flynedd.

Carem estyn ein cydymdeimlad dwysaf i rieni Ifan, Thomas a Rhiannon Harries yn eu profedigaeth fawr; bydd llawer iawn o gyfeillion a chyd-weithwyr Ifan yn gweld colled enbyd ar ei ol.

## A WYDDECH CHI?

Fod wyth gwahanol fath o sedd yn y pafiliwn a bod angen gosod pedwar darn gwahanol wrth ei gilydd (ar ôl dod o hyd iddyn nhw) cyn sgriwio un sedd i'r llawr?

Fod y pwerau eisteddfodol eisoes wedi symud yn bell gyda'u cynlluniau i symud y pafiliwn i Gaernarfon?

Fod mwy o unedau nag erioed o'r blaen ar y maes eisteddfodol yng Nghaerdydd?

Fod gwragedd yng nghefn y pafiliwn yn barod i weithio chwe mil o gwpaneidiau o de yn ystod wythnos yr eisteddfod? (Does neb wedi cyfri nifer y toiledau sydd ynddo!)

Fod Hamard (pobl y bwyd) yn darparu o leiaf un pryd o fwyd trwy wahoddiad arbennig bob dydd o wythnos yr eisteddfod? Mae lluniaeth mor bwysig â llenyddiaeth!

Fod holl lawr a llwyfan y pafiliwn wedi eu gosod ar sgaffaldiau sy'n costio miloedd o bunnoedd i'w hurio?

Fod angen chwe deg erw o dir erbyn hyn i gynnal steddfod?

Mai eisteddfod Caerdydd yw'r eisteddfod fwyaf costus a fu erioed?




# TROSEDDWYR — yng nghapel Islwyn!

**Un o ddysgwyr cynnar Gwent oedd y bardd Islwyn a anwyd yn Ynysddu yn 1832. Roedd ei dad a'i ddau frawd yn dal swyddi uchel fel peirianwyr, a'r bwriad oedd i Islwyn ddilyn eu camre nhw. Cafodd ei addysg yn Nhredegar, Casnewydd, Y Bontfaen ac Abertawe, ond roedd dylanwad ei frawd-yng-nghyfraith (Y Parchedig Daniel Jenkins) yn drech na thraddodiad y teulu, ac fe baratodd ar gyfer y Weinidogaeth. Fel myfyriwr diwinyddol fe welwyd ei arbenigrwydd fel athronydd, ond ofer pob ymgais i'w berswadio i fynd i Brifysgol Glasgow.**

Cafodd ei ordeinio fel Gweinidog yn 1859 ond ni chymerodd ofal Eglwys. Fe gysylltodd ei hun â Chapel y Babell yng Nghwmfelinfach — nepell o Risca, ac yno y treuliodd weddill ei fywyd. Ei athrawon oedd Daniel Jenkins a dau o feirdd Gwent — Gwilym Ilid ac Aneurin Fardd. Wedi meistroli'r Gymraeg aeth ati i farddoni, ac fe gafodd lawer iawn o lwyddiant mewn eisteddfodau pwysig ond ni lwyddodd i gipio gwobr yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Bu yn ohebydd i nifer o bapurau a chylchgronau Cymraeg, ond fe ddaeth Islwyn i'r amlwg fel un o feirdd mawr Cymru. Erbyn heddiw, nid oes neb yn amau nad oedd yn un o wŷr athrylgar y traddodiad llenyddol Cymraeg. Bu farw ar Dachwedd 20, 1878, ganrif union yn ôl, a gwelir ei fedd ym mynwent Capel y Babell.

Yn y blynyddoedd diwethaf, fe syrthiodd Capel y Babell yn adfail. Er i'r Swyddfa Gymraeg roi cymorth ariannol i adnewyddu'r to a chodi mur o amgylch y fynwent, dal i ddirywio oedd hanes yr adeilad. Cysylltodd Cymdeithas Islwyn â Gwasanaeth Profiannaeth Gwent i ofyn am gymorth i adnewyddu'r adeilad, a chytunwyd i ganiatau i droseddwyr gyflawni'r gwaith yn eu oriau hamdden.

Ail-agorwyd Capel y Babell ym Mehefin 1978, ac ym Mhabell y Dysgwyr ar faes yr Eisteddfod ceir arddangosfa fechan o'r hyn a gyflawnwyd gan y troseddwyr. Os ydych am ymweld â Chapel y Babell —cofeb i un o ddysgwyr enwoca Gwent — ewch ar y draffordd M4 i gyfeiriad Casnewydd; trowch ar Allanfa 27 i gyfeiriad Risca; dilynwch y ffordd A467 i Risca yna canlyn y ffordd i gyfeiriad Pontllanffraith gan droi i'r chwith ym mhentre Cwmfelinfach.

GWYNN TUDNO JONES

# MODELAU



# GWASANAETH ARBENNIG EISTEDDFOD




CAEAU LLANDÂF — PENTWYN

Caeau Llandâf, Heol yr Eglwys Gadeiriol, Stryd y Castell, Heol Greyfriars, Heol Casnewydd, Heol Waterloo, Rhodfa Colchester, Heol Cyncoed, Heol Gwern Rhuddi, Heol Pentwyn, Pentwyn.

**DYDD LLUN 7 — Dydd Sadwrn 12 Awst**

CAEAU LLANDÂF — PENTWYN (Rwt 51)

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Caeau Llandâf | 0830 | 0842 | 0854 | .... | 0904 | .... | 0914 | .... | 0924 | .... | 0934 | .... | 0944 | 0954 | 1004 | 1014 | .... | .... | 1044 | .... |
| Heol y Castell | 0840 | 0852 | 0904 | .... | 0914 | .... | 0924 | .... | 0934 | .... | 0944 | .... | 0954 | 1004 | 1014 | 1024 | .... | .... | 1054 | .... |
| Heol Penylan | 0858 | 0910 | 0922 | 0927 | 0932 | 0937 | 0942 | 0947 | 0952 | 0957 | 1002 | 1007 | 1012 | 1022 | 1032 | 1042 | 1055 | 1102 | 1112 | 1122 |
| Pentwyn | 0912 | 0924 | 0936 | 0941 | 0946 | 0951 | 0956 | 1001 | 1006 | 1011 | 1016 | 1021 | 1026 | 1036 | 1046 | 1056 | 1109 | 1116 | 1126 | 1136 |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Caeau Llandâf | .... | 1114 | .... | .... | 1144 | .... | 1214 | 1229 | 1244 | 1259 | 1314 | 1329 | 1344 | 1359 | 1414 | 1444 | 1514 | .... | .... | .... |
| Heol y Castell | .... | 1124 | .... | .... | 1154 | .... | 1224 | 1239 | 1254 | 1309 | 1324 | 1339 | 1354 | 1409 | 1424 | 1454 | 1524 | .... | .... | .... |
| Heol Penylan | 1132 | 1142 | 1152 | 1202 | 1212 | 1227 | 1242 | 1257 | 1312 | 1327 | 1342 | 1357 | 1412 | 1427 | 1442 | 1512 | 1542 | 1552 | 1602 | 1612 |
| Pentwyn | 1146 | 1156 | 1206 | 1216 | 1226 | 1241 | 1256 | 1311 | 1326 | 1341 | 1356 | 1411 | 1426 | 1441 | 1456 | 1526 | 1556 | 1606 | 1616 | 1626 |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Caeau Llandâf | 1704 | 1714 | 1724 | 1734 | 1744 | 1754 | .... | 1804 | .... | 1814 | .... | 1824 |
| Heol y Castell | 1714 | 1724 | 1734 | 1744 | 1754 | 1804 | .... | 1814 | .... | 1824 | .... | 1834 |
| Heol Penylan | 1732 | 1742 | 1752 | 1802 | 1812 | 1822 | 1827 | 1832 | 1837 | 1842 | 1847 | 1852 |
| Pentwyn | 1746 | 1756 | 1806 | 1816 | 1826 | 1836 | 1841 | 1846 | 1851 | 1856 | 1901 | 1906 |

PENTWYN — CAEAU LLANDÂF


| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pentwyn | 0958 | 1028 | 1058 | 1128 | 1143 | 1158 | 1213 | 1228 | 1243 | 1258 | 1313 | 1328 | 1343 | 1358 | 1413 | 1428 | 1443 | 1458 | 1528 | 1558 |
| Heol Penylan | 1014 | 1044 | 1114 | 1144 | 1159 | 1214 | 1229 | 1244 | 1259 | 1314 | 1329 | 1344 | 1359 | 1414 | 1429 | 1444 | 1459 | 1514 | 1544 | 1614 |
| Heol y Castell | 1032 | 1102 | 1132 | 1202 | 1217 | 1232 | 1247 | 1302 | 1317 | 1332 | 1347 | 1402 | 1417 | 1432 | 1447 | 1502 | 1517 | 1532 | 1602 | 1632 |
| Caeau Llandâf | 1042 | 1112 | 1142 | 1212 | 1227 | 1242 | 1257 | 1312 | 1327 | 1342 | 1357 | 1412 | .... | 1442 | .... | 1512 | .... | 1542 | 1612 | 1642 |

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pentwyn | 1608 | 1618 | 1628 | 1638 | 1648 | 1658 | 1708 | 1718 | 1728 | 1738 | 1748 | 1758 | 1808 |
| Heol Penylan | 1624 | 1634 | 1644 | 1654 | 1704 | 1714 | 1724 | 1734 | 1744 | 1754 | 1804 | 1814 | 1824 |
| Heol y Castell | 1642 | 1652 | 1702 | 1712 | 1722 | 1732 | 1742 | 1752 | 1802 | 1812 | 1822 | 1832 | 1842 |
| Caeau Llandâf | 1652 | 1702 | 1712 | 1722 | 1732 | 1742 | 1752 | 1802 | 1812 | 1822 | 1832 | 1842 | .... |

*Bydd bysiau arbennig yn gadael Pentwyn am Gaeau Llandâf ar ôl y cyngherddau yn y Pafiliwn bob nos.*

*Mae gan Gyngor Celfyddydau Cymru ddwy arddangosfa yn y Pafiliwn Celf a Chrefft: 10 CROCHENYDD (arddangosfa o waith crochenwyr o Gymru) a MODELAU. Arddangosfa ryfeddol yw'r olaf o'r rhain, yn cynnwys modelau cywrain, rai ohonynt ar raddfa anhygoel o fychan, o bob math o bethau: injans trên ac awyrennau, llong y tu fewn i fylb golau, mynydd Everest mewn plastisin a blodau cŵyr, i enwi ond rhai. Yn y darlun uchod, dangosir rhan o Olygfa mewn Stryd Rufeinig (gan Reg Lewis, o Abertawe). Chredech chi fyth, ond dim ond 2 fodfedd o uchder yw'r ffigurau hyn!*

Cyfres yw hon ynglŷn â Chymry sydd naill wedi dewis, neu wedi gorfod mynd dros Glawdd Offa i fyw neu i weithio, eu hymateb hwy i fyw yn Lloegr, a'r modd y mae hynny wedi newid eu hadwedd tuag at Gymru. Awdur yr erthygl hon heddiw yw rhywun sydd ar fin mynd: Cathryn Gwynn, enillydd Coron yr Urdd yn Llanelwedd, fydd yn mynd i Gaergrawnt i astudio yn yr Hydref.



# CYMRY AR WASGAR

gan
**CATHRYN GWYNN**

*Ganed Cathryn Gwynn yn 1960 yn Wrecsam ac fe'i magwyd yng Nghaerdydd, gan symud i Gaerfyrddin wedyn. Fe'i haddysgwyd yn Ysgol Gymraeg Bryntaf, Caerdydd, Ysgol Uwchradd Rhydfelen ac Ysgol Ramadeg Caerfyrddin. Mae'n llenydda ac yn eisteddfota'n gyson ac eleni, enillodd Goron Eisteddfod yr Urdd yn Llanelwedd. Yn yr Hydref, bydd yn mynd i Gaergrawnt i astudio am radd Saesneg.*



**Mi fyddaf yn rhyfeddu o hyd at y ffordd y mae'r misoedd yn llithro'n ddiarwybod heibio i mi — cyn i mi gael fy ngwynt ataf yn iawn, y mae blwyddyn arall o brysurdeb a hwyl yn dechrau ei bwrlwm. Yr adeg hon llynedd roeddwn yn eistedd yn y garafan ar faes carafanau'r Eisteddfod yn Wrecsam yn prysur gynllunio'n taith i lawr trwy Loegr i Gaergrawnt i dreulio rhyw dridiau o wyliau yno. Eleni, does ond ychydig wythnosau i fynd, ac mi fyddaf yno unwaith eto — ond y tro hwn yn fyfyrwraig, yn llwythog o lyfrau a bagiau, yng nghanol berw tymor Prifysgol.**

Cawsom wyliau bendigedig yno, er gwaetha'r tywydd diflas — ac er gwaethaf undonedd ofnadwy y gwastatir ffrwythlon o gwmpas. Dinas yw Caergrawnt lle mae'r gorffennol yn cyd-fyw'n hapus efo prysurdeb bywyd yr ugeinfed ganrif, a hynny heb golli dim o naws unigryw holl fframwaith hynafol y Brifysgol.

Y mae'r lawntiau gwastad, gwyrdd sy'n ymestyn i lawr at lannau'r afon Cam yn wledd i'r llygad, a muriau cerfiedig y colegau yn rhoi rhyw awyrgylch o ysblandebr y gorffennol i'r ddinas. Rhywle yng nghanol pob coleg nythai capel, ac wrth gerdded eu lloriau mawr cain, roeddwn yn ymwybodol fod traed cenedlaethau o Gymry enwog wedi troedio yno o' m blaen, â gafael eu henwlad yn dynn ar eu gwar — o Edmwnd Prys a'r Esgob Wiliam Mogan hyd at George Guest ein dyddiau ni. Roedd yma'n sicr "flas y cynfyd, Yn aros fel hen win".

Ac wedi profi o'r gwin hwnnw am dridiau prin a'i fwynhau i'r eithaf dyma benderfynu rhoi cynnig ar fynd yno'n fyfyriwr. Yn sgil paratoi yr wythnosau canlynol, cefais flas aruthrol ar ddarllen gwaith llu o lenorion nad oeddynt i mi o'r blaen ond enwau ar silff lyfrau. Cefais gipolwg ar lenyddiaeth gyfoethog ac eang iawn, a sylweddolais gymaint fy anwybodaeth am y lenyddiaeth honno. Pleser pur fu'r wythnosau hynny i un sydd wedi bod â diddordeb brwd ers plentyndod ym myd llyfrau, oherwydd cefais heddwch llwyr i bori mewn byd o geinder geiriau a swyn stori.

Erbyn hyn, wrth gwrs, dim ond atgof yw wythnosau'r paratoi nol ym mis Tachwedd ac mae cynnwrf yr Hydref sydd i ddod yn dechrau cyneweirio tu mewn i mi. Rwy'n edrych ymlaen fwy bob dydd at weld mis Hydref yn dod — wedi'r cyfan mae'n antur. Rwyf yn mentro i fyd gwahanol, byd sy'n llawn o brofiadau newydd, cynhyrfus. 'Does yna wythnos yn mynd heibio heb i mi fwrw golwg eto ar y prospectws a darllen y pamffledi ar Goleg y Brenin, er mwyn ceisio dwyn i gof yr agosatrwydd a deimlais pan oeddwn yno ar gyfweliad.

Un peth sy'n plesio'n fawr. Mae gen i ddiddordeb ym myd y theatr ac mae'n debyg fod digon o gyfle yno i chwarae mewn drama,darllen dramau a gweld dramau. Mi fedraf ddychmygu fy hun yn byw ar fara caws er mwyn cael digon o arian i fynd i'w gweld i gyd! Mae yno sinemau ddigon hefyd, a llu o wahanol gymdeithasau — rhywbeth at ddant pawb yn wir. Cymdeithas y Mabinogion fydd yn fy nenu i gynta yn naturiol — gobeithio y caf gwrdd yn fuan â'r holl Gymry eraill sy draw yno, a chael hwyl yn cyfnewid profiadau'r gwyliau a aeth heibio — yn Steddfod a swyddi haf. Cyn pen dim mi fydd yn amser dod adre am yr haf eto, gan mai byr yw'r tymhora acw, ac mi fydd Eisteddfod Caernarfon yn galw'n gryf, lle caf sgwrs iawn gyda ffrindiau eraill fydd wedi bod ar wasgar yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

Buan yr hed yr amser. Ymhen tair blynedd mi fydd yn rhaid dewis gyrfa. Hyd yn hyn 'does gen i ddim syniad pa un rwy' am ei dilyn — ond y mae'r drysau i gyd yn agor o'm blaen, a'r llwybrau'n arwain i bob cyfeiriad. 'Does dim ond amser a ddengys pa lwybyr troellog fydd yn arwain i fyny at ddrws fy ngyrfa i.

